

## **Senedd Cymru / Welsh Parliament**

### **Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM**

Cyfarfod am 18.30, dydd Mawrth 30 Mehefin 2020, Cyfarfod Rhithwir drwy Zoom

#### **COFNODION**

**Yn bresennol:** David Rees AS (Cadeirydd), Dai Lloyd AS, Nick Ramsay AS, a'r aelodau allanol a ganlyn: Dr Robert Hoyle (Llywodraeth Cymru), Geertje van Keulen (y Gymdeithas Ficrobiolog), Wendy Sadler (Science Made Simple), Tom Addison (y Gymdeithas Ffisiolegol), Mike Edmunds (y Gymdeithas Seryddol Frenhinol), Mike Charlton (LSW), Rob Janes (y Brifysgol Agored), Dave Jones (y Gymdeithas Ddaearegol), Helen Obee Reardon (Prifysgol Caerdydd), Cerian Angharad (y Gymdeithas Addysg Wyddonol), Faron Moller (Technocamps), Helen Taylor (IFST), Dayna Mason (y Gymdeithas Gemeg Frenhinol), Karen Stroobants (y Gymdeithas Gemeg Frenhinol) Stephen Benn (y Gymdeithas Fioleg Frenhinol), Keith Jones (Sefydliad y Peirianwyr Sifil), Yvonne Murphy (Sefydliad y Peirianwyr Sifil), Paul Harwood (TechHub, Abertawe), yr Athro David Worsley (Prifysgol Abertawe) Leigh Jeffes a Niall Sommerville (Ysgrifenyddiaeth, y Gymdeithas Gemeg Frenhinol).

**Ymddiheuriadau:** Jack Sargeant AS, Mark Isherwood AS

#### **Croeso**

Croesawodd David Rees AS bawb i'r cyfarfod gan nodi mai hwn oedd y tro cyntaf i'r grŵp gyfarfod ar ffurf rithwir. Rhoddwyd croeso arbennig i'r siaradwyr gwadd, sef Paul Harwood, yr Athro David Worsley, Dr Karen Stroobants a Dr Dayna Mason.

#### **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2019**

Dosbarthwyd y cofnodion cyn y cyfarfod a chytunwyd arnynt heb newidiadau.

#### **Materion yn codi**

Ffocws y cyfarfod blaenorol oedd addysg STEM yn y cwricwlwm newydd, ac roedd materion i'w trafod â'r Gweinidog drwy lythyr neu gwestiynau ysgrifenedig. Fodd bynnag, oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus a waethygodd yn fuan ar ôl y cyfarfod, teimlwyd y byddai'n amhriodol codi'r materion hyn ar hyn o bryd gan y byddai'n annhebygol y byddai gan Lywodraeth Cymru gapasiti i ymateb. Dychwelir at y pynciau hyn pan fydd hynny'n bosibl yn y dyfodol.

#### **Cyflwyniadau: Ymateb y gymuned STEM i COVID-19**

Roedd y cyfarfod yn gyfle i glywed am waith y gymuned STEM yng Nghymru a thu hwnt wrth ymateb i faterion sydd wedi codi yn sgil COVID-19.

Soniodd Paul Harwood, TechHub Abertawe, am waith consortiwm SWARM. Soniodd am eu gwaith i ddefnyddio'r capasiti sydd ar gael yn y sectorau diwydiant, gweithgynhyrchu a dylunio yn ne Cymru i gefnogi cadwyn gyflenwi'r GIG. Edrychodd ar gyfleoedd i gydweithio a pharhau i ymateb i COVID yn y dyfodol.

Bu'r Athro David Worsley, Prifysgol Abertawe, yn trafod prosiect SPECIFIC a'r broses o newid i weithgarwch sy'n gysylltiedig â COVID, gan gynnwys creu hylif diheintio a gweithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru o ran dihalogi. Tynnodd yr Athro Worsley sylw at enghreifftiau o greadigrwydd ac arloesedd a'r angen i barhau i gefnogi'r rhain ar gyfer y dyfodol.

Rhoddodd Dr Karen Stroobants y wybodaeth ddiweddaraf am ymateb y Gymdeithas Gemeg Frenhinol a sut y mae wedi cefnogi ei haelodau a'r gymuned gemeg ehangach, gan gynnwys drwy gronfa gymunedol y cemegwyr, gwasanaethau gwybodaeth a meithrin cysylltiadau ar draws y gymuned.

Yn olaf, soniodd Dr Dayna Mason am effaith COVID 19 ar addysg a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol i ddarparu adnoddau a hyfforddiant ar-lein i athrawon. Roedd hyn yn cynnwys 100 o sesiynau gan athrawon ar-lein gyda dros 1,400 o wylwyr. Tynnodd Dr Mason sylw at bryderon hirdymor posibl ynghylch amhariad ar hyfforddiant athrawon ac effaith diffyg gwaith ymarferol ar yr hyn a ddysgir gan fyfyrwyr.

Yna, cafwyd sesiwn holi ac ateb ymhlith yr aelodau. Diolchodd David Rees AS i'n siaradwyr am eu cyfraniad.

### **Adroddiad gan Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru**

Rhoddodd Dr Robert Hoyle, Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru, gyflwyniad ar ran Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru ar ddatblygiadau cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys y gwaith i gefnogi'r ymateb i COVID a staffio grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru, modelu a chasglu gwybodaeth ryngwladol, lansio cronfa ymchwil Sêr Cymru CV-19 sy'n werth £1.3 miliwn, a dechrau trafodaeth ryngwladol ynghylch cydweithredu o ran ynni niwclear. Soniodd Dr Hoyle am ddatblygiadau ar lefel y DU o ran map ymchwil a datblygu BEIS sydd ar ddod a'r gronfa sefydlogi ymchwil a datblygu, gan dynnu sylw at effeithiau posibl yng Nghymru. Yn olaf, nododd fod Bil y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) wedi cael ei ohirio tan y cyfnod deddfwriaethol nesaf h.y. ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai 2021.

### **Y wybodaeth ddiweddaraf gan gymdeithasau gwyddonol a chyrrff proffesiynol**

Rhoddodd y cynrychiolwyr y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am weithgareddau cyfredol a gweithgareddau'r dyfodol. Anogwyd yr aelodau i rannu adroddiadau ysgrifenedig â'r ysgrifenyddiaeth i'w dosbarthu ar ôl cyfarfod.

Rhoddodd Leigh Jeffes y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiad Gwyddoniaeth a'r Senedd gan nodi bod y digwyddiad blynyddol ar 19 Mai tan 24 Tachwedd oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, yn dilyn penderfyniad y Gymdeithas Gemeg Frenhinol i beidio â chynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb am weddill y flwyddyn hon, bydd Gwyddoniaeth a'r Senedd yn cael ei aildefnu fel gweminar ddydd Mawrth 22 Medi rhwng 17.00 a 18.30. Y themâu fydd: 'Gwyddoniaeth Hinsawdd, Cynaliadwyedd... a COVID-19'.

**Cam i'w gymryd** Gwahoddir aelodau i gyflwyno diweddariadau ysgrifenedig byr i'w rhannu fel rhan o gylchlythyr i'r grŵp yn dilyn y cyfarfod.

**Cam i'w gymryd** Bydd manylion am ddigwyddiad Gwyddoniaeth a'r Senedd yn cael eu rhannu â'r aelodau, gan gynnwys cyfarwyddiadau cofrestru pan fydd y rhain ar gael.

**Cam i'w gymryd** Rhannu'r gwahoddiad i ddiwrnod cysylltiadau Seneddol San Steffan 2020 â'r aelodau

### **Pynciau i'w trafod yng nghyfarfodydd y dyfodol**

Cafodd yr aelodau gyfle i godi pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymwyd ymchwil ac arloesi yng Nghymru fel pwnc, gan gynnwys gwahodd UKRI fel siaradwr. Dylid anfon awgrymiadau eraill at Niall Sommerville

### **Unrhyw fater arall**

Dim

### **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Bydd y Grŵp yn cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 3 Tachwedd, 18.30, yn dibynnu ar yr amgylchiadau bydd hyn naill ai yn Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel, ar-lein drwy Zoom, neu'n gyfuniad o'r ddau.

### **Diwedd y cyfarfod**